



Teitl y Dudalen	Syniadau
Y Criw	<ul style="list-style-type: none"> Rydych chi'n gweithio i'r Urdd. Mae angen ffurflen newydd ar gyfer gwneud cais i fynd i Batagonia. Ewch ati i greu taflen ar y cyfrifiadur yn cynnwys y cwestiynau sydd ar y dudalen Mae gennych ddi-ddordeb o fynd ar daith i Batagonia. Ewch ati i ateb y cwestiynau sydd ar y daflen
Dydd Mercher Hydref 24ain	<ul style="list-style-type: none"> Rydych ar y bws ar y ffordd i Heathrow. Ysgrifennwch baragraff disgrifiadol ar y canlynol yn disgrifio yr hyn yr ydych yn: <p>Gweld allan drwy'r ffenestr; Clywed ar y bws; Sut yr ydych yn teimlo</p>
Dyddiadur un ferch fach ar y daith	<ul style="list-style-type: none"> Rydych ar yr un daith â'r ferch yn y dyddiadur. Dewiswch un o'r diwrnodau ac ysgrifennwch ymson o'r profiad hwnnw
Dydd Iau Hydref 25ain	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith ymchwil a gwaith TGCh. Cynlluniwch daflen wybodaeth ar Drelew
Dydd Gwener Hydref 26ain	<ul style="list-style-type: none"> Cynlluniwch boster ar gyfer hyrwyddo Eisteddfod del Chubut. Cofiwch gynnwys Dyddiad; Amser; Lleoliad; Lluniau; Print mawr; Pris a.y.y.b
Dydd Sadwrn Hydref 27ain	<ul style="list-style-type: none"> Creu ffeil ffeithiau ar Lewis Jones
Dydd Sul Hydref 28ain	<ul style="list-style-type: none"> Rydych yn helpu i drefnu 'Asado' (Barbeciw) yn Neu-add y Gymnasio. Rydych am wahodd eich ffrind newydd o Gymru i ddod yno am noson o hwyl. Ysgrifennwch e bost at Catrin yn ei gwahodd i'r achlysur. Cofiwch gynnwys yr amser, lleoliad, achlysur, unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Teitl y Dudalen	Syniadau
Dydd Llun Hydref 29ain	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Urdd wedi gofyn i chi gyfweld â dyn o'r enw Gwilym Roberts sy'n gyn-athro Cymraeg yng Ngholeg Camwy. Meddyliwch am 10 cwestiwn y gallech ofyn iddo am ei fywyd a'i brofiadau o weithio a byw yn y Gaiman
Dydd Mawrth Hydref 30ain	<ul style="list-style-type: none"> Mae Bianca eisiau ffrind post newydd o Gymru. Ysgrifennwch lythyr ati amdanoch chi eich hunan. Cofiwch gynnwys cyfeiriad; gwybodaeth bersonol; ble rydych chi'n byw; oedran; hobiau; ysgol. Cofiwch holi cwestiynau hefyd. Gwnewch yn siwr eich bod yn gorffen y llythyr yn briodol
Dydd Mercher Hydref 31ain	<ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennwch stori antur ar y teitl 'Casa Verde'
Dydd Iau Tachwedd 1af	<ul style="list-style-type: none"> Chi yw'r cyflwynydd ar Radio Cymru. Meddyliwch am o leiaf 7 cwestiwn y gallech ofyn i Catrin am ei phrofiadau ym Mhatagonia hyd yn hyn
Dydd Gwener Tachwedd 2ail	<ul style="list-style-type: none"> Creu gwahoddiad i Barti Gwisg ffansi Calan Gaeaf
Dydd Sadwrn Tachwedd 3ydd	<ul style="list-style-type: none"> Rydych yn siopa o amgylch Esquel ac rydych am brynu dilledyn newydd. Chi yw Catrin. Ysgrifennwch sgwrs mewn siop rhwng Catrin a'r Siopwr.
Dydd Sul Tachwedd 4ydd	<ul style="list-style-type: none"> Chi yw Catrin. Ysgrifennwch lythyr o ddiolch at Lois ac Iwan am eu cymorth yn ystod eich taith ym Mhatagonia. Cofiwch gynnwys rhai o'r profiadau; eich uchafbwynt o'r daith, a'r hyn y byddwch yn gweld eisiau ar ôl dychwelyd yn ôl i Gymru



Teitl y Dudalen	Syniadau
Y Criw	<ul style="list-style-type: none"> Rydych newydd gyrraedd Caerdydd ac yn cyfarfod â'r criw fydd ar y daith gyda chi i Batagonia. Mewn grŵp, cynlluniwch a pherfformiwch sgets o'r sefyllfa honno. Cofiwch holi cwestiynau, fynegi barn a chyflwyno profiadau personol dychmygus. Sut fydddech yn teimlo? Beth fydd yn eich poeni fwyaf am y daith? Beth fydddech yn edrych ymlaen at wneud fwyaf? a.y.y.b
Dydd Mercher Hydref 24ain	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen bwcio bws ar gyfer y daith o Benblewin i Heathrow. Mewn parau, cynlluniwch ac actiwch sgwrs ffôn yn bwcio'r bws gyda chwmni Brodyr Richards
Dyddiadur un ferch fach ar y daith	<ul style="list-style-type: none"> Y dyddiad ydy'r 16eg o Fehefin 1865. Mae Capten y llong yn bygwth torri gwalltiau'r merched i gyd! Mewn grwpiau o 3, actiwch y sefyllfa honno allan. Cymeriadau: Merch, Capten, Mam/Tad
Dydd Iau Hydref 25ain	<ul style="list-style-type: none"> Gwylwch y 3 fideo yma o dri chôr yn Ysgol Gerdd y Gaiman. Yn eich grŵpiau trafodwch pa gôr oedd orau. Mynegwch eich barn gan gynnig a datblygu sylwadau a dadleuon <p> http://www.youtube.com/watch?v=A2zI5UduN9c http://www.youtube.com/watch?v=vm5Q0HOPSS5A http://www.youtube.com/watch?v=fOqtClgh4Y </p>
Dydd Gwener Hydref 26ain	<ul style="list-style-type: none"> Rydych yn perfformio yn Eisteddfod del Chubut. Penderfynwch pa eitem i'w pherfformio ac yna recordiwch ef ar dâp sain
Dydd Llun Hydref 29ain	<ul style="list-style-type: none"> Rydych newydd dderbyn DVD drwy'r post yn cynnwys ffilm Catrin o 'Daith y Gaiman'. Mae hi wedi gofyn i chi ddanfôn ffilm allan o'ch ardal chi. Gwnewch ffilm 10 munud ar 'Daith y Pentref' i'w danfon allan ati er mwyn iddi ei chwarae i drigolion ardal y Gaiman

Teitl y Dudalen	Syniadau
Dydd Mercher Hydref 3 Iain	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith trafod grŵp. 'Ni ddylai defnydd pobl o'r Gymraeg fod yn berffaith. Eu hymdrechion ydy'r peth pwysig!' Trafodwch y gosodiad a mynegwch eich barn. Ydych chi'n cytuno/anghytuno gyda'r gosodiad
Dydd Iau Tachwedd 1af	<ul style="list-style-type: none"> Mae Radio Cymru yn gwneud eitem ar Batagonia. Maen nhw wedi gofyn i Catrin gael ei chyfweld ar y radio yn sôn am ei phrofiadau ym Mhatagonia hyd yn hyn. Chi yw Catrin a gyda'ch ffrind fel y cyflwynydd ar y radio cynlluniwch sgript chwarae rôl yna recordiwch y cyfweiliad
Dydd Gwener Tachwedd 2ail	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith pâr. Sgwrs. Perswadio ffrind i ddod i barti.
Dydd Sadwrn Tachwedd 3ydd	<ul style="list-style-type: none"> Rydych mewn bwyty yn Esquel. Cynlluniwch ac actiwch golygfa mewn bwyty. Yn anffodus mae rhywbeth o'i le gyda'r bwyd. Beth sy'n digwydd nesaf?
Dydd Sul Tachwedd 4ydd	<ul style="list-style-type: none"> http://patagonia2015.com/cymaniesquel.html Gwylwch y fideo ar y dudalen uchod - 'Gwyl Fawr Esquel yn 108 mlwydd oed'. Gwnewch rhestr o'r gweithgareddau sydd i'w gwneud yn yr ardal
Dydd Mawrth Tachwedd 6ed	<ul style="list-style-type: none"> Rydych wedi cyrraedd yr awyrenfa yn Buenos Aires. Mae eich awyren i Rhufain wedi ei gohurio am o leiaf 5 awr. Mewn grŵp, cynlluniwch a pherfformiwch sgets o'r sefyllfa. Meddyliwch am y cymeriadau y bydddech yn dod ar eu traws. Sut fydddech yn teimlo? Fydddech chi'n rhoi'r bai ar rhywun?



DARLLEN

Teitl y Dudalen	Syniadau
Y Criw	<ul style="list-style-type: none"> Rydych chi'n gweithio i'r Urdd. Darllenwch atebion eich ffrindiau ar gyfer eu ffurflenni cais. Pwy fydddech chi'n eu dewis i fynd ar y daith i Batagonia? Rhowch resymau dros eich dewis
Patagonia	<ul style="list-style-type: none"> Astudiwch y mapiau. Dewiswch ddau le ar unrhyw un o'r mapiau a gwnewch ymchwil ohonynt ar y wê. Rhannwch eich gwybodaeth gyda gweddill y dosbarth
Dyddiadur un ferch fach ar y daith	<ul style="list-style-type: none"> Rydych ar y llong ac wedi hwylio heibio i Ynys Madeira. Chwiliwch ar y wê am 10 ffaith am yr ynys hon
Dydd Sadwrn Hydref 27ain	<ul style="list-style-type: none"> Ewch ar y wê i chwilio am wybodaeth ar Lewis Jones
Dydd Llun Hydref 29ain	<ul style="list-style-type: none"> Dewch o hyd i wybodaeth ar y wê am Fudiad Merched y Wawr. Pwy yw Merched y Wawr? Ble mae'r canghennau a'r clybiau? Pryd maen nhw'n cyfarfod? Beth maen nhw'n wneud? <p>http://www.merchedywawr.co.uk/aboutUs.link</p>
Dydd Mawrth Hydref 30ain	<ul style="list-style-type: none"> http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/patagonia/mimosa.shtml <p>Darllenwch y wybodaeth sydd ar y wefan uchod am y Mimosa.. Dewch o hyd i 8 ffaith am y llong.</p>

Teitl y Dudalen	Syniadau
Dydd Mercher Hydref 3 Iain	<p>http://www.bbc.co.uk/cymru/tramor/straeon/pata-x.shtml</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r BBC wedi creu gwefan yn cynnwys erthyglau am Batagonia. Ewch i'r wefan a dewiswch un erthygl i'w darllen. Ewch drwy'r erthygl a gwnewch rhestr o unrhyw eiriau anghyfarwydd (<i>geiriau nad ydych yn eu deall</i>). Yn dilyn hyn, dewch o hyd i ystyr y geiriau mewn geiriadur. Rhannwch y geiriau hyn gyda gweddill y dosbarth
Dydd Sul Tachwedd 4ydd	<ul style="list-style-type: none"> http://patagonia2015.com/cymaniesquel.html <p>Gwaith Pâr. Ewch i'r wefan uchod.</p> <p>Beth oedd yr ŵyl? Beth yw pwrpas y dathlu? Pa fath o weithgareddau sydd yn yr ŵyl?</p>
Dydd Mawrth Tachwedd 6ed	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith ymchwil <p>Rydych yn glanio yn Rhufain ac mae gennych amser rhydd i fynd ar daith o amgylch y Ddinas. Gwnewch rhestr o'r 5 peth mwyaf poblogaidd y gall pobl wneud neu eu gweld yn Rhufain</p>